# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5370

# 176

## Datganiad y Llywydd

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad yn cyhoeddi canlyniadau etholiad cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru. Ar ran y Cynulliad, cyfeiriodd y Llywydd at y sefydliadau, yr ysgolion a thîm y Senedd Ieuenctid a diolchodd iddynt am eu gwaith caled, estynnodd ei llongyfarchiadau i'r Aelodau newydd a dywedodd fod y Cynulliad yn edrych ymlaen at eu croesawu i gyd i'r Senedd ar gyfer eu cyfarfod llawn cyntaf ym mis Chwefror.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.33

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog Tai ac Adfywio ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.08

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** O ystyried bod adroddiad diweddar Estyn yn datgan y gallai ysgolion uwchradd yng Nghymru wneud yn well, gyda dim ond hanner wedi'u barnu i fod yn dda neu'n ardderchog ar hyn o bryd, pa waith y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau y codir safonau ar draws holl ysgolion uwchradd Cymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.19

Gwnaeth **Vikki Howells** ddatganiad am - Gadewch i Paul Robeson Ganu (dathlu 80 mlynedd ers ei ymddangosiad hanesyddol yn y Pafiliwn, Aberpennar ar 7 Rhagfyr 1938).

Gwnaeth **Helen Mary Jones** ddatganiad am - Dathlu bywyd yr Athro Mike Sullivan, Cyfarwyddwr yr Academi, Prifysgol Abertawe a fu farw ddydd Gwener diwethaf.

Gwnaeth **Bethan Sayed** ddatganiad am - Nodi Wythnos Dysgu Gydol Oes.

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 03-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Dechreuodd yr eitem am 15.24

**NDM6890** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 03-18 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 23 Tachwedd 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Perfformiad Llwyodraeth Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.26

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6892** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu ers mis Rhagfyr 2009:

a) fod amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn y GIG yng Nghymru wedi cynyddu;

b) fod perfformiad yn erbyn y targedau 4 a 12 awr yn adrannau brys Cymru wedi dirywio;

c) nad yw’r targedau trin canser yng Nghymru erioed wedi cael eu cyrraedd;

d) fod nifer y gwelyau mewn ysbytai yng Nghymru wedi gostwng;

e) fod perfformiad TGAU wedi dirywio yng Nghymru gyda chyrhaeddiad graddau A * - C ar gyfer haf 2018 ar y lefel waethaf ers 2005;

f) fod sgoriau OECD PISA Cymru yn waeth mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth a bod y canlyniadau diweddaraf yn waeth nag yn 2009, gan roi sgoriau Cymru yn hanner gwaelod sgoriau byd-eang yr OECD ac ar waelod sgoriau'r DU;

g) fod nifer fawr o ysgolion yng Nghymru wedi'u cau'n barhaol;

h) fod incwm gwario gros aelwydydd fel canran o gyfartaledd y DU wedi gostwng;

i) fod gan Gymru gyfradd twf cyflog gyfartalog gwaethaf gwledydd y DU;

j) fod ardrethi busnes yng Nghymru wedi dod yn llai cystadleuol na rhannau eraill o'r DU; a

k) fod nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu yn flynyddol yng Nghymru wedi gostwng.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod ei methiannau, gan roi’r gorau i’w pholisïau sy’n methu, a chyflawni'r newid cadarnhaol sydd ei angen ar Gymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 5 | 25 | 42 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** [Julie James (Gorllewin Abertawe)]

Dileu popeth ar ôl Cymru a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod:

a) Bod bron i naw o bob 10 o bobl yn cael eu trin o fewn yr amser targed o 26 wythnos

b) Bod y buddsoddiad yn GIG Cymru ar lefel na welwyd o'r blaen

c) Bod mwy o bobl nag erioed yn goroesi canser yng Nghymru ac yn cael eu trin o fewn yr amser targed

d) Bod cyfran y disgyblion a gafodd y graddau TGAU uchaf, A* i A, wedi cynyddu i 18.5% yn 2018

e) Bod 8.7% o ddisgyblion wedi cael A* yn eu harholiadau Safon Uwch yn 2018 – y canlyniadau gorau yng Nghymru ers cyflwyno'r radd yn 2010

f) Bod incwm gwario gros aelwydydd (GDHI) yn 2016 yn £15,835 i bob person, sy'n cyfateb i 81.5% o GDHI y DU, cynnydd ers 2015

g) Bod enillion wythnosol gros cyflogeion sy'n gweithio'n amser llawn yng Nghymru yn 2018 wedi cynyddu 2.1% ers 2017

h) Bod 1.5m o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru yn ystod y tri mis hyd at fis Medi 2018, cynnydd o 4.2% o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt – y cynnydd mwyaf yn unrhyw un o wledydd neu ranbarthau'r DU

i) Bod tri chwarter busnesau bach Cymru yn cael cymorth â'u biliau ardrethi ac nad yw eu hanner yn talu unrhyw ardrethi annomestig o gwbl

j) Y bydd 20,000 o dai fforddiadwy newydd yn cael eu hadeiladu drwy gyllid Llywodraeth Cymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

2. Yn diolch i'r Prif Weinidog am ei arweiniad a'i waith yn ystod ei naw mlynedd yn y swydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 5 | 12 | 42 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6892** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod:

a) Bod bron i naw o bob 10 o bobl yn cael eu trin o fewn yr amser targed o 26 wythnos

b) Bod y buddsoddiad yn GIG Cymru ar lefel na welwyd o'r blaen

c) Bod mwy o bobl nag erioed yn goroesi canser yng Nghymru ac yn cael eu trin o fewn yr amser targed

d) Bod cyfran y disgyblion a gafodd y graddau TGAU uchaf, A* i A, wedi cynyddu i 18.5% yn 2018

e) Bod 8.7% o ddisgyblion wedi cael A* yn eu harholiadau Safon Uwch yn 2018 – y canlyniadau gorau yng Nghymru ers cyflwyno'r radd yn 2010

f) Bod incwm gwario gros aelwydydd (GDHI) yn 2016 yn £15,835 i bob person, sy'n cyfateb i 81.5% o GDHI y DU, cynnydd ers 2015

g) Bod enillion wythnosol gros cyflogeion sy'n gweithio'n amser llawn yng Nghymru yn 2018 wedi cynyddu 2.1% ers 2017

h) Bod 1.5m o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru yn ystod y tri mis hyd at fis Medi 2018, cynnydd o 4.2% o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt – y cynnydd mwyaf yn unrhyw un o wledydd neu ranbarthau'r DU

i) Bod tri chwarter busnesau bach Cymru yn cael cymorth â'u biliau ardrethi ac nad yw eu hanner yn talu unrhyw ardrethi annomestig o gwbl

j) Y bydd 20,000 o dai fforddiadwy newydd yn cael eu hadeiladu drwy gyllid Llywodraeth Cymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

2. Yn diolch i'r Prif Weinidog am ei arweiniad a'i waith yn ystod ei naw mlynedd yn y swydd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 5 | 12 | 42 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 7 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 16.21

**NDM6891** David Melding (Canol De Cymru)

Yr oes Neolithig yn stori Cymru: gwerthfawrogi yr hyn a gyflawnwyd cyn hanes.

Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynhanes ym mywyd diwylliannol Cymru.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.44, canwyd y gloch a gohiriwyd y cyfarfod gan ailgynnull am 16.47 ar gyfer y cyfnod pleidleisio.

**Am 16.49, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 10 munud. Cafodd y gloch ei chanu 5 munud cyn ailgynnull ar gyfer dadl Cyfnod 3 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).**

## 9 Dadl ar Gyfnod 3 y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.59

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, cafodd y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4A:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4A.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4B:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4B.**

**Derbyniwyd gwelliant 4, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 35 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 11.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 26 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 12.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 13:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 13.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 14:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 30 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 14.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 15:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 30 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 15.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 35 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 16:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 30 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 16.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 17:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 17.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 18:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 30 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 18.**

**Ni chynigiwyd gwelliant 19.**

**Ni chynigiwyd gwelliant 20.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 21:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 21.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 25 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

**Derbyniwyd gwelliant 1, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 22:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 25 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 22.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 23:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 23.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 24:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 24 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 24.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 25:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 25.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 26:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 26.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 27:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 27.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 28:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 28.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 29:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 29.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 30:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 30.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2A:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2A.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2B:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2B.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2C:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2C.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2D:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2D.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2E:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2E.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 11 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 31:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 31.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 32:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 32.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 33:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 33.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 34:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 34.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 35:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 35.**

**Derbyniwyd gwelliant 3, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 36:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 25 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

Daeth y cyfarfod i ben am 19.36

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2018**